**Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru**

**Tachwedd 2011**

**Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddrafft ar gyfer yr Ystâd**

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar ddyfodol plismona y llynedd, fe ddywedom:

> *Byddwn hefyd yn craffu ar y defnydd o adeiladau'r heddlu. Bydd cyfleoedd i arbed arian drwy werthu eiddo, lleihau costau refeniw a newid y ffordd yr ydym yn rhoi gwasanaethau 'wyneb yn wyneb' i'r cyhoedd. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw fanylion ar gael am hyn tan ar ôl yr adolygiad strwythurol .*

Byddwn yn dilyn y camau canlynol wrth ystyried ein hanghenion ar gyfer yr ystâd:

1. Adolygiad o'r Ystâd gan ymgynghorwyr a fydd yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer y dyfodol.
2. Strategaeth ddrafft yn amlinellu'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud dros y pum mlynedd nesaf (y ddogfen hon)
3. Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft ar gyfer yr Ystâd
4. Cadarnhau'r Strategaeth ar gyfer yr Ystâd (17 Chwefror 2012)
5. Gweithredu (a fydd, ble bo hynny'n briodol, yn cynnwys rhagor ymgynghori, gan gynnwys drwy'r system gynllunio)

Mae'r Strategaeth Ddrafft hon yn nodi'r effeithiau arfaethedig ar bob un o'r chwe sir yng Ngogledd Cymru ond dylid cofio mai ar y camau cynharaf y mae llawer o'r cynigion ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth yn cael ei darparu dros gyfnod o bum mlynedd, yn arbennig mewn perthynas â rhai o'r prif brosiectau ac eiddo ar brydles. Bydd rhagor o ymgynghori'n digwydd drwy'r broses gynllunio ble bo hynny'n briodol.

Ar gyfer yr Adolygiad o'r Ystâd defnyddiwyd y fethodoleg a amlinellir isod. Mae'r argymhellion a wnaed yn seiliedig ar anghenion y gwasanaeth, gan gynnwys priodoldeb yr adeiladau presennol a'u gwerth strategol a gweithredol. Bydd yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft hon yn cael ei lansio yng nghyfarfod Awdurdod yr Heddlu ar 9 Rhagfyr a bydd pob papur ar gael ar wefan yr Awdurdod www.nwalespa.org

Bydd yn bosibl i'r cyhoedd fynegi eu barn ar y cynigion drwy gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr 2012. Rydym yn gofyn am sylwadau a barn erbyn 1 Chwefror 2012 er mwyn caniatáu digon o amser i ddadansoddi'r ymatebion cyn i'r Awdurdod ystyried y strategaeth yn ffurfiol ar 17 Chwefror 2012. Yn y cyfarfod hwn bydd yr Awdurdod yn ystyried barn y cyhoedd ac yn dod i gytundeb ynghylch sut y dylid

symud ymlaen. Bydd crynodeb o'r sylwadau a gafwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliad yn cael ei gynnwys fel rhan i bapurau'r cyfarfod ar wefan Awdurdod yr Heddlu.

**Eich Safbwyntiau**

Drwy gydol mis Rhagfyr a mis Ionawr bydd yn bosibl i chi roi eich barn i ni. Ymgynghoriad ar y cyd gan yr Heddlu ac Awdurdod yr Heddlu yw hwn ac mae gennym gyfeiriadau penodol ar gyfer ymatebion a cheisiadau am ragor o wybodaeth. Y cyfeiriad e-bost yw consultation@north-wales.police.uk neu gallwch ysgrifennu atom:

**Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddrafft ar gyfer yr Ystâd, Glan y Don, Conwy LL29 8AW**

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i drafod y cynigion hyn gyda sefydliadau eraill, eich cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd neu'ch cynrychiolwyr cymunedol, gan gynnwys Cynghorwyr Sir. Byddwn yn gwneud trefniadau i ymweld ag ardaloedd penodol yng Ngogledd Cymru i drafod y cynigion hyn a bydd gwybodaeth ar gael ar wefan yr Heddlu a gwefan Awdurdod yr Heddlu. Fodd bynnag, os hoffech i ni drafod y newidiadau arfaethedig hyn gyda chi, eich grŵp cymunedol neu sefydliad, cofiwch gysylltu â ni.

Mae eich barn chi yn bwysig i ni ac rydym yn rhagweld y bydd ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft ar gyfer yr Ystâd yn ysgogi dadl gyhoeddus eang. Byddwch yn amyneddgar os nad ydych yn cael ymateb ar unwaith, byddwn yn anelu at ateb pob ymholiad o fewn 5 diwrnod gwaith ond rydym yn ymwybodol y byddwn yn derbyn nifer fawr o ymholiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am faterion eraill sy'n dylanwadu ar Ogledd Cymru, ewch i wefan Awdurdod yr Heddlu neu wefan yr Heddlu.

**Cefndir**

Ym mis Hydref 2010 cyflwynodd y Canghellor ei Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) gyda'r canlyniad y bydd nawdd ariannol ar gyfer yr heddlu wedi gostwng 20% erbyn 2014-15.

Felly gyda'r nod o leihau gwariant yng Ngogledd Cymru, cafodd gwaith ei wneud i ailgynllunio'r modd y mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth ymateb, plismona cymdogaeth, gwasanaethau ymchwilio ayyb, ynghyd ag ailstrwythuro'r isadeiledd rheoli a chefnogi. Ar ôl ymgynghori â'n cymunedau ym mis Rhagfyr 2010, rhoddwyd llawer o'r newidiadau ar waith ar 4 Mai 2011 ac mae rhagor o newidiadau i ddod eto.

Ar ôl Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth cytunodd yr Awdurdod a'r Heddlu i gomisiynu adolygiad o'r ystâd blismona yng Ngogledd Cymru. Y rheswm dros gomisiynu'r adolygiad oedd er mwyn dod o hyd i arbedion ariannol, gan ein bod ni wedi gofyn i bobl Gogledd Cymru yn 2010 beth yr oeddynt am i ni ei flaenoriaethu: p**obl i ddarparu gwasanaethau neu adeiladau i ddarparu'r**

**gwasanaethau ohonynt, ac fe ddywedoch chi wrthym ni mai pobl oeddech chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf.**

Fodd bynnag mae'n rhaid i ni gydbwyso hyn â'r angen i fod â gweithleoedd addas ar gyfer ein Timau Plismona Cymdogaeth ac ar gyfer timau megis Swyddogion Ymateb, Unedau Diogelu'r Cyhoedd, Ymchwilwyr Lleoliadau Trosedd a CID.

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth bu'n rhaid i ni ailedrych ar y ffordd yr ydym yn gwneud pethau, pam yr ydym yn gwneud pethau, ac yn bwysicach na dim, yr effaith mae'r hyn yr ydym yn ei wneud yn ei gael ar y cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethau. Adolygu Ystâd yr Heddlu fydd y cam nesaf yn y gwaith o ail-ddylunio ein gwasanaethau fel y gallwn weithredu gyda llai o nawdd gan y Llywodraeth tra ar yr un pryd yn diogelu'r rheng flaen a sicrhau diogelwch ein cymunedau.

**Methodoleg yr Adolygiad o'r Ystâd**

Yn ystod yr Adolygiad o'r Ystâd edrychwyd ar bob adeilad yn fanwl, gan gynnwys faint o ddefnydd a wneir ohonynt ar hyn o bryd. Cafodd pob adeilad ei werthuso yn erbyn tri maen prawf allweddol i bennu i ba rannau y mae pob un yn diwallu'r angen i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol, a chydbwyso'r anghenion hynny fel y'i hamlygir yn yr adran gefndir uchod.

I grynhoi'r casgliadau, mae pob adeilad wedi'i ddosbarthu o fewn y matrics canlynol:

| Meini Prawf | GWYRDD | OREN | COCH |
|---|---|---|---|
| **Pwysigrwydd Gweithredol** | Hanfodol Cadw | Cadw o ddewis on dylid adolygu | Dim angen gweithredol ar ei ffurf bresennol |
| **Addasrwydd i'r Pwrpas** | O ansawdd da neu foddhaol | Problemau wedi'u hadnabod | Ddim yn addas i'r pwrpas |
| **Ffactorau Cost** | Cost isel fesul pen (£0 - 3000) neu cost cynnal isel | Cost canolig fesul pen (£3,000 - 6,000) neu cost cynnal canolig | Cost uchel fesul pen (£6,000 +) neu cost cynnal uchel |

Nid yw casgliadau'r Adolygiad o'r Ystâd yn cynnwys barn y cyhoedd, maent yn hytrach yn seiliedig ar yr anghenion a ddynodwyd gan yr Heddlu. Nod y papur hwn (y Strategaeth Ddrafft) yw cefnogi dadl gyhoeddus a darparu gwybodaeth allweddol y bydd angen ei hystyried.

**Egwyddorion Allweddol ac Argymhellion Drafft**

Ein nod yw bod ag ystâd blismona effeithiol fydd yn gweithredu ar lai o gost ac yn diwallu anghenion cymunedau Gogledd Cymru a phlismona modern.

Rydym yn gwerthfawrogi bod rhai newidiadau arwyddocaol yn y strategaeth a allent beri pryder i’n cymunedau, ac rydym eisiau gwybod am eich pryderon fel y gallwn eu trafod gyda chi. Rydym yn deall na fydd y cyhoedd yn croesawu rhai o’r argymhellion ond gofynnwn i'n cymunedau gadw mewn cof, wrth iddynt ystyried eu hymateb i'r ymgynghoriad hwn, mai ein nod wrth fynd ati i adolygu ein hystâd yw ceisio diogelu cymaint o swyddi swyddogion a staff o fewn y sefydliad ag y gallwn a chynnal y gwasanaeth plismona rheng flaen gymaint â phosibl.

Rydym yn gwybod fod pobl yn gwerthfawrogi gorsafoedd heddlu ac yn teimlo'n dawelach eu meddwl o wybod eu bod nhw yno, ond rydym hefyd yn gwybod o'r hyn a ddywedoch wrthym yn ystod yr Ymgynghoriad ar Ddyfodol Plismona yng Ngogledd Cymru mai’r gwasanaeth ei hun yw’r hyn yr ydych yn ei werthfawrogi fwyaf, ac fel gweision y gymuned, rydym wedi gwrando ar y farn honno wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae gan Heddlu Gogledd Cymru 49 gorsaf heddlu, naw ohonynt yn ganolfannau ymateb (hubs). Mae’r 40 gorsaf nad ydynt yn ganolfannau ymateb wedi’u lleoli mewn trefi a phentrefi ar draws yr ardal ac yn gyffredinol maent yn safleoedd ar gyfer y Timau Plismona Cymdogaeth sy’n cynnwys Rheolwyr Rhawd Gymunedol (RhRhG/CBMs) a Swyddogion Cefnogi Cymuned (SCCH/PCSOs) sy’n gweithio yn y cymunedau lleol er mwyn mynd i’r afael â phroblemau lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae gorsafoedd Gogledd Cymru’n amrywio’n sylweddol o ran maint, oedran a math - o adeiladau bychan a oedd yn arfer bod yn dai i swyddogion heddlu yn y trefi a'r pentrefi lleiaf, i orsafoedd llawer mwy mewn lleoliadau prysurach. Mae rhai o’r gorsafoedd mwyaf yn darparu gwasanaeth desg flaen ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd. Mae’r Adolygiad wedi adnabod nad yw rhai o’r adeiladau hyn, rhai i raddau mwy nac eraill, bellach yn angenrheidiol yn weithredol, neu nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt, eu bod yn ddrud i’w rhedeg ac yn gyffredinol anaddas i’r pwrpas. Mae hyn yn golygu y gall yr heddlu roi gwasanaeth i’r cyhoedd yn fwy economaidd ac effeithiol o rywle arall.

Mae’r gwasanaeth plismona modern wedi newid yn aruthrol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Nid yw'r ddelwedd o orsaf heddlu leol gyda swyddog heddlu lleol yn gweithio ynddi 24 awr y dydd bellach yn cynrychioli realiti gwasanaeth plismona modern. Mae’n rhaid i ystâd yr heddlu adlewyrchu hyn

Gallai lleihau cost ein hystâd blismona o bosibl olygu ein bod yn atal Heddlu Gogledd Cymru rhag colli 30 swyddog heddlu arall.

Mae'n bosibl bod pobl yn teimlo bod cau gorsaf heddlu yn golygu colli gwasanaeth yr heddlu, ond y gwirionedd yw yn aml iawn y gellir darparu gwasanaeth yr un mor dda o leoliad gwahanol. Os ydym am gadw’r niferoedd uchaf posibl o swyddogion a staff yn gweithio i Heddlu Gogledd Cymru, mae angen i ni leihau ein costau eraill. Mae gennym ddewis felly rhwng pobl ac eiddo: rydym eisiau creu ystâd fwy effeithiol a rhatach fel y gallwn ddal ein gafael ar fwy o bobl.

**Adleoli Gorsafoedd**

Ble byddwn yn penderfynu adleoli gorsafoedd heddlu i adeiladau mwy cost effeithiol neu briodol, bydd y gorsafoedd presennol yn parhau'n weithredol hyd nes y cawn hyd i, ac y comisiynir adeiladau eraill yn eu lle er mwyn sicrhau na fydd y newidiadau yn amharu ar y gwasanaeth a ddarperir.

Mewn rhai achosion bydd symud gorsaf yn golygu symud i adeilad llai a fydd o faint mwy priodol ar gyfer y timau plismona lleol (swyddogion heddlu a SCCH) a fydd hefyd yn golygu eu bod yn bresenoldeb gweladwy, hawdd mynd atynt yn eu cymunedau.

Mae adleoliad arfaethedig gorsafoedd heddlu yn elfen allweddol o'r ymgynghoriad hwn. Byddem felly'n croesawu eich barn a'ch awgrymiadau ar gyfer lleoliadau posibl ar gyfer y gorsafoedd hynny sydd wedi'u clustnodi fel rhai a fyddant o bosibl yn cael eu symud. Yn y rhan fwyaf o achosion byddai adeiladu gorsaf newydd yn rhy gostus, felly rydym yn ffafrio'r opsiwn o rannu cyfleusterau gydag asiantaethau eraill. Enghreifftiau o leoliadau amgen ar gyfer yr heddlu fyddai:

(1) Neuaddau Tref
(2) Llyfrgelloedd
(3) Canolfannau Hamdden
(4) Swyddfeydd Cyngor
(5) O fewn y Gorsafoedd Tân presennol neu rhai newydd
(6) Mewn unedau manwerthu lleol

**Canolfannau Ymateb**

Argymhelliad yr Adolygiad o'r Ystâd yw bod angen adeiladau cyfangwbl newydd ar gyfer dwy ganolfan ymateb: mae ailddatblygiad safleoedd presennol y canolfannau ymateb hyn wedi bod yn rhan o strategaethau ystâd blaenorol a oedd hefyd yn cydnabod yr angen i wella'r cyfleusterau sydd ar gael i'r heddlu ddarparu gwasanaeth ohonynt. Y ddwy ganolfan fydd yn cael eu hailddatblygu yw:

- Ynys Môn: Llangefni
- Sir Wrecsam: Wrecsam

Yn ychwanegol, byddwn hefyd yn symud canolfan ymateb Bae Colwyn o Ffordd Rhiw (bydd yr orsaf yn cau) i adeiladau'r Pencadlys ym Mae Colwyn. Mae cynlluniau ar gyfer adeiladu gorsaf heddlu newydd yn Llangefni yn dra datblygedig gyda'r safle eisoes wedi'i brynu a'r broses ddylunio a chynllunio ar y gweill.

**Gorsafoedd Heddlu fydd yn cau**

Mae pedair gorsaf y mae'r Adolygiad yn argymell y dylid eu cau a'n bod yn gwerthu'r eiddo. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad yr adolygiad nad yw'r gwasanaeth heddlu yn yr ardaloedd hyn angen cyfleuster penodedig gan fod cyfleusterau amgen ar gael ar gyfer swyddogion o fewn pellter teithio rhesymol.

Y gorsafoedd hyn yw

- Gwynedd: **Penrhyndeudraeth**
- Sir Conwy **Towyn** (eisoes wedi'i dadgomisiynu yn 2009)
- Ynys Môn **Gaerwen** a'r Fali

Nid yw'r argymhelliad y dylid cau'r gorsafoedd heddlu yn y lleoliadau hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth yn llai effeithiol nac y bydd y nifer o swyddogion yn yr ardaloedd heddlu'n lleihau.

**Gorsafoedd Heddlu fydd yn symud:**

Y 12 gorsaf a glustnodwyd ar gyfer eu symud yn yr Adolygiad yw

- Sir Wrecsam: **Gresffordd, Cefn Mawr a'r Waun**
- Gwynedd: **Y Bala, Nefyn a Bethesda**
- Sir y Fflint: **Saltney**, **y Fflint, Bwcle a Threffynnon**
- Sir Ddinbych: **Gorsaf Heddlu Llangollen**
- Sir Conwy: **Llandudno**

Ym mhob un o'r lleoliadau hyn byddwn yn cynnal gwerthusiad manwl iawn o'r opsiynau er mwyn dod o hyd i leoliad newydd.

**Gorsafoedd Heddlu fydd yn cael eu hadolygu dros y pum mlynedd nesaf**

Dynododd yr Adolygiad rai adeiladau y bydd angen eu hadolygu yn y dyfodol agos, eto yn dilyn asesiad o'u pwysigrwydd gweithredol, eu haddasrwydd i'r pwrpas a'u cost hollgynhwysfawr.

Y gorsafoedd hyn yw:

- Sir Wrecsam: **Coedpoeth a Bangor is y Coed**
- Sir Gwynedd: **Tywyn, Y Bermo, Abersoch, Llanberis a Pwllheli**
- Sir y Fflint: **Yr Wyddgrug, Glannau Dyfrdwy a Mostyn**
- Sir Ddinbych: **Rhuthun a Rhuddlan**
- Sir Conwy: **Llanrwst** a **Conwy**

- Ynys Môn **Caergybi a Benllech**

Pa un a ydym wedi clustnodi gorsaf ar gyfer ei hadleoli neu ar gyfer adolygiad tymor hirach, byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned parthed lleoliadau eraill posibl ar eu cyfer. Byddwn yn parhau i fod angen adeilad y gall yr heddlu ei ddefnyddio ym mhob un o'r ardaloedd hyn ac rydym eisiau gweithio gyda'r cymunedau ac asiantaethau eraill i ddod o hyd i gyfleoedd i wella ansawdd neu hygyrchedd yr adeilad y bydd yr heddlu'n ei ddefnyddio.

**Adeiladau Corfforaethol**

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru bum adeilad corfforaethol, sef y Pencadlys ym Mae Colwyn; yr Adeilad PFI, Canolfan Hyfforddi'r Heddlu a'r Ganolfan Gyfathrebiadau sydd i gyd ar yr un safle yn Llanelwy, ac adeilad yr Adran Gweinyddu Cyfiawnder ym Mhrestatyn.

Mae'r adeiladau hyn yn amrywio'n sylweddol o ran maint, oedran a math ac mae hyn yn effeithio ar eu costau rhedeg. Dim ond adeilad y Pencadlys a'r AGC sy'n eiddo rhyddfraint. Mae'r contract PFI ar gyfer eiddo mwyaf yr Heddlu mewn grym tan 2027 ac mae'r Ganolfan Hyfforddi a'r Ganolfan Gyfathrebiadau wedi'u prydlesu tan 2015.

Argymhellodd yr Adolygiad o'r Ystâd y dylid cyfuno'r ystâd gorfforaethol er mwyn cael y cydbwysedd gorau rhwng arbedion refeniw, costau a manteision gweithredol.

Mae'r ddwy brydles sy'n dirwyn i ben yn 2015 yn rhoi cyfle i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer symud o'r Ganolfan Hyfforddi a'r Ganolfan Gyfathrebiadau os yw'n ymarferol i wneud hynny o safbwynt gweithredol ac ariannol, yn amodol ar werthusiad o'r opsiynau sydd ar gael.

Adeilad yr AGC ym Mhrestatyn yw'r hynaf a'r lleiaf hyblyg o'r pum adeilad ac mae'r Rhaglen Effeithiolrwydd Cyfiawnder Trosedd (CJEP) bresennol yn cynnig cyfle amserol i adolygu prosesau gweithio a phenderfynu ar y math o adeilad fydd yn angenrheidiol i gynnal y prosesau a'r swyddogaethau hyn yn y dyfodol.

Ein strategaeth ddrafft felly yw:

- Cau'r Adran Gweinyddu Cyfiawnder ym Mhrestatyn, symud y staff i'r adeilad PFI yn Llanelwy a sefydlu cyfleuster yng nghanol y dref ar gyfer y Tîm Plismona Cymdogaeth.
- Symud o'r Ganolfan Hyfforddi yn Llanelwy erbyn 2015 ac ail-ddarparu'r cyfleusterau hynny yn Adeilad y PFI yn Llanelwy ac/neu ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn.
- Ymgymryd â gwerthusiad llawn o'r opsiynau o safbwynt y Ganolfan Gyfathrebiadau, sef naill ai adnewyddu'r les yn 2015 neu symud o'r adeilad a darparu'r swyddogaeth o rywle arall.

Bydd angen astudiaethau dichonoldeb manwl ar gyfer pob un o'r uchod.

**Desgiau Blaen**

Mewn ymdrech i gwrdd â'r heriau ariannol, mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau desg flaen ar draws y sefydliad. Nod yr adolygiad hwn yw sicrhau bod y sefydliad yn parhau i ddarparu gwasanaeth desg flaen dibynadwy a hygyrch sy'n adlewyrchu ystâd yr heddlu ac yn gweithredu am lai o gost tra ar yr un pryd yn diwallu gofynion y cyhoedd. Byddwn yn ymgynghori â chi ynghylch unrhyw gynigion fydd yn golygu newidiadau i'r gwasanaeth desg flaen yn eich ardal chi.

**Y Siroedd - crynodeb**

Yn ychwanegol at y trosolwg hwn, rydym wedi paratoi crynodebau'n amlinellu effaith y strategaeth ddrafft ar bob sir a'r gorsafoedd ym mhob sir yng Ngogledd Cymru.

Mae casgliadau'r adolygiad wedi'u hamlygu mewn tabl ar gyfer pob gorsaf ac mae'r naratif yn rhoi crynodeb o'r rhesymau dros y casgliadau hynny, gan gynnwys y defnydd presennol o'r adeilad a'r gwasanaethau desg flaen cyhoeddus sydd ar gael ynddynt. Mae'r crynodebau hefyd yn amlygu'r ardaloedd hynny ble byddem yn croesawu awgrymiadau ac adborth gan y cyhoedd.

**Y Gwasanaeth Plismona yn Ynys Môn.**

Prif Arolygydd Keith Ellis ac Arolygydd Ardal Mike Isaacs sy'n gyfrifol am blismona ar yr Ynys. I gael rhagor o wybodaeth am eich tîm plismona lleol cliciwch yma I gael rhagor o wybodaeth am gyfraddau trosedd ewch i www.police.uk neu i'r Crynodeb o Blismona yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi crynodeb misol o berfformiad yn gyffredinol ac ar lefel sirol.

Ar yr Ynys ar hyn o bryd mae saith gorsaf heddlu, sef gorsafoedd Llangefni, Caergybi, Porthaethwy, Gaerwen, Y Fali, Benllech ac Amlwch.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb Llangefni**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Coch | I'w gadarnhau | Coch | Symud |

Mae'r orsaf heddlu yn Llangefni yn ganolfan ar gyfer oddeutu 50 aelod o staff gan gynnwys y tîm ymateb a rhai staff plismona lleol. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Cyngor Sir Ynys Môn sy'n berchen ar yr adeilad sydd wedi'i leoli ger canol tref Llangefni. Mae'r orsaf yn Llangefni'n un sydd wedi'i dynodi fel un o bwysigrwydd strategol, fodd bynnag credir fod yr adeilad presennol yn gwbl anaddas i'r pwrpas. Ychydig iawn o le sydd yn yr orsaf ar gyfer offer, desgiau a chyfleusterau angenrheidiol eraill; nid oes digon o le i gynnal cyfweliadau a gweithgareddau plismona allweddol eraill ac nid oes digon o le y tu allan ar gyfer parcio cerbydau'r heddlu.

Mae'r Heddlu a'r Awdurdod ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gael caniatâd cynllunio i adeiladu gorsaf heddlu newydd yn Llangefni a fydd yn cynnwys darpariaeth gwasanaeth desg flaen. Os ceir y caniatâd cynllunio, rydym yn gobeithio dechrau adeiladu'r orsaf newydd yn 2012 a'i hagor yn 2013.

Mae'r tabl isod yn dangos gwerthusiad o'r orsaf yn Llangefni yn dilyn codi'r adeilad newydd sy'n cael ei gynllunio ar hyn o bryd.

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Gwyrdd: | Canolig | Gwyrdd: |

**Amlwch**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Gwyrdd: | Oren | I'w gadarnhau | Gwyrdd: | Cadw |

Mae'r orsaf heddlu yn Amlwch ar hyn o bryd yn ganolfan ar gyfer y tîm plismona lleol sy'n cynnwys pedwar aelod. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Barn yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas ac yn gymharol bwysig yn weithredol.

**Benllech**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Coch | Gwyrdd: | Oren | I'w gadarnhau | Oren | Adolygu |

Mae dau aelod y tîm plismona lleol ar gyfer yr ardal wedi'u lleoli yng ngorsaf Benllech. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Mae Benllech yn orsaf sydd wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas ond nad yw'n hanfodol bwysig yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Gaerwen**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Coch | Oren | I'w gadarnhau | Coch | Cau |

Mae oddeutu wyth aelod o staff, yn gynnwys y tîm plismona lleol a swyddog cyswllt wedi'u lleoli yng ngorsaf Gaerwen. Defnyddir yr orsaf hefyd gan hyfforddwyr gyrru pan fyddant yn ymweld â'r ardal. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf. Nid yw'r orsaf wedi'i staffio'n llawn ac nid yw'n cael ei defnyddio i'r eithaf. Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas. O ganlyniad i'r ffaith fod yr orsaf yn agos at orsafoedd mwy, casgliad yr adolygiad oedd y gellid cynnal yr un lefel o wasanaeth i'r gymuned heb yr orsaf yng Ngaerwen. Argymhelliad yr adolygiad yw y dylid cau'r orsaf.

Mae'n bwysig ein bod yn glir ynghylch y ffaith mai'r unig newid arfaethedig i'r gwasanaeth yn yr ardal hon yw'r adeilad. Ni fydd unrhyw effaith ar niferoedd plismona yn yr ardal o ganlyniad i gau'r adeilad.

Fodd bynnag rydym yn awyddus i glywed barn y cyhoedd ynglŷn â lleoliadau amgen posibl ar gyfer y tîm plismona lleol, boed yn ystafell gyfarfod i gynnal cymorthfeydd neu awgrymiadau eraill.

**Caergybi**

| Pwysigrwydd | Addasrwydd i'r | Ffactorau Cost | Potensial i gyd- | Categori | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|

| Gweithredol | Pwrpas | | leoli | Cyffredinol | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Coch | I'w gadarnhau | Oren | Ailddatblygu ymhen 5-10 mlynedd |

Mae oddeutu 28 aelod o staff yn gweithio o orsaf Caergybi. Mae hyn yn cynnwys y tîm ymateb, y tîm plismona lleol, CID, staff y ddalfa a staff cefnogi. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos rhwng 8am a 6pm. Mae'r orsaf hefyd yn cynnwys dalfa.

Mae'r orsaf yng Nghaergybi wedi'i hamlygu fel un o bwysigrwydd gweithredol, fodd bynnag o ganlyniad i oed yr adeilad fe'i dynodwyd yn amhriodol yn yr hirdymor. Dywedwyd y bydd yn ofynnol ailddatblygu'r orsaf o fewn y 5-10 mlynedd nesaf a gallai hyn olygu chwilio am adeilad amgen yng Nghaergybi - naill ai drwy ailddatblygu adeilad neu adeiladu o'r newydd. Er mai cynlluniau ar gyfer y tymor hirach yw'r rhain, byddem yn croesawu awgrymiadau gan sefydliadau eraill sydd hefyd yn bwriadu datblygu safleoedd yng Nghaergybi fel y gallwn edrych yn llawn ar y posibilrwydd o rannu lleoliad.

**Porthaethwy**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Oren | I'w gadarnhau | Gwyrdd: | Cadw |

Mae'r orsaf ym Mhorthaethwy ar hyn o bryd yn safle ar gyfer oddeutu 24 aelod o staff gan gynnwys y timau plismona lleol ac ymchwilio ar gyfer yr ardal honno, ynghyd â thîm diogelu'r cyhoedd sy'n gyfrifol am Wynedd ac Ynys Môn. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon. Casgliad yr adolygiad oedd bod Porthaethwy o bwysigrwydd gweithredol a bod lleoliad yr Uned Diogelu'r Cyhoedd ym Mhorthaethwy yn bwysig o ran galluogi darpariaeth gwasanaeth effeithiol yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Er bod angen addasu gosodiad mewnol yr adeilad i ryw raddau, credir mai'r opsiwn gorau yw cadw a datblygu'r adeilad presennol.

**Y Fali**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Coch | Gwyrdd: | Oren | | Coch | Cau |

Mae'r orsaf heddlu yn y Fali ar hyn o bryd yn ganolfan ar gyfer y tîm plismona lleol sy'n cynnwys pum aelod. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf. Nid yw'r orsaf wedi'i staffio'n llawn ac nid yw'n cael ei defnyddio i'r eithaf. Barn yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn bwysig yn weithredol. O ganlyniad i'r ffaith fod yr orsaf yn agos at orsafoedd mwy, casgliad yr adolygiad oedd y gellid cynnal yr un lefel o wasanaeth i'r gymuned heb yr orsaf yn y Fali. Argymhelliad yr adolygiad yw y dylid cau'r orsaf.

Mae'n bwysig ein bod yn glir ynghylch y ffaith mai'r unig newid arfaethedig i'r gwasanaeth yn yr ardal hon yw'r adeilad. Ni fydd unrhyw effaith ar niferoedd plismona yn yr ardal o ganlyniad i gau'r adeilad.

Fodd bynnag rydym yn awyddus i glywed barn y cyhoedd ynglŷn â lleoliadau amgen posibl ar gyfer y tîm plismona lleol,  boed yn ystafell gyfarfod i gynnal cymorthfeydd neu awgrymiadau eraill.

**Y Gwasanaeth Plismona yng Ngwynedd**

Prif Arolygydd Pete Gaffey (Prif Arolygydd Sirol), Arolygydd Mark Armstrong (Arolygydd Dwyfor a Meirionnydd) ac Arolygydd Lisa Jones (Arolygydd Arfon) sy'n gyfrifol am blismona yng Ngwynedd. I gael rhagor o wybodaeth am eich tîm plismona lleol cliciwch yma I gael rhagor o wybodaeth am gyfraddau trosedd ewch i www.police.uk neu i'r Crynodeb o Blismona yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi crynodeb misol o berfformiad yn gyffredinol ac ar lefel sirol.

Yng Ngwynedd ar hyn o bryd mae 15 gorsaf heddlu: Abersoch, y Bala, Bangor, y Bermo, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Dolgellau, Llanberis, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Pwllheli, Porthmadog a Thywyn.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb Caernarfon**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Oren | Uchel | Gwyrdd: | Cadw |

Mae'r orsaf heddlu yng Nghaernarfon ar hyn o bryd yn ganolfan ar gyfer oddeutu 120 aelod o staff gan gynnwys y tîm ymateb a rhai staff plismona lleol, CID, diogelu'r cyhoedd a staff eraill yr heddlu. Mae dalfa yn yr orsaf a chafodd hon ei hymestyn yn ddiweddar er mwyn cynyddu'r nifer o gelloedd. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos rhwng 8am a 6pm.

Mae'r orsaf yng Nghaergybi wedi'i lleoli mewn ardal breswyl ym Maesincla ac mae'n cynnwys tri adeilad o wahanol oedrannau ac addasrwydd. Y casgliad yw y bydd angen peth gwaith ailddatblygu yn y tymor hirach mewn rhai rhannau o'r orsaf yng Nghaernarfon er mwyn gwella ei heffeithlonrwydd ar gyfer y dyfodol – a hynny'n bennaf yn yr adeilad swyddfeydd mawr a adeiladwyd yn y 1950au.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb Dolgellau**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Oren | Isel | Gwyrdd: | Cadw |

Mae oddeutu 60 aelod o staff yn gweithio o orsaf Dolgellau. Mae'r staff yn cynnwys y tîm ymateb, CID, diogelu'r cyhoedd a staff eraill yr heddlu. Mae'r orsaf hefyd yn cynnwys dalfa. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'r orsaf wedi'i lleoli ger canol y dref ac mae'n adeilad concrit mawr a adeiladwyd yn y 1970au. Bydd angen peth gwaith yn y dyfodol i foderneiddio rhai rhannau o'r adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb Porthmadog**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Gwyrdd: | Canolig | Gwyrdd: | Cadw |

Mae'r orsaf heddlu ym Mhorthmadog ar hyn o bryd yn ganolfan ar gyfer oddeutu 40 aelod o staff gan gynnwys y tîm ymateb a rhai staff plismona lleol, CID, diogelu'r cyhoedd a staff eraill yr heddlu. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae'r orsaf ym Mhorthmadog yn un fodern ac nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau yma.

**Abersoch**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Gwyrdd: | Isel | Oren | Adolygu |

Mae tîm plismona lleol o bump yn gweithio o orsaf heddlu Abersoch ar hyn o bryd. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Mae gorsaf Abersoch wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas ond nad yw'n hanfodol bwysig yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Y Bala**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Gwyrdd: | Uchel | Coch | Symud |

Mae dau aelod y tîm plismona lleol ar gyfer yr ardal wedi'u lleoli yng ngorsaf y Bala. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf. Nid yw'r orsaf wedi'i staffio'n llawn ac nid yw'n cael ei defnyddio i'r eithaf. Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn cydnabod fod hon yn orsaf bwysig o safbwynt gweithredol o ganlyniad i'r pellter rhwng ardal y Bala a gorsafoedd eraill. Ein bwriad felly yw ceisio adleoli'r orsaf i adeilad mwy addas yn ardal y Bala. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf yn y Bala yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt adleoli'r gwasanaeth plismona yn y Bala, yr opsiwn yr ydym yn ei ffafrio ar hyn o bryd yw gweithio gyda'r Cyngor fel rhan o'r ailddatblygiad o'r ysgol, y llyfrgell a gwasanaethau eraill yn y dref. Disgwylir y bydd y gwaith ym cymryd nifer o flynyddoedd i'w gwblhau ac y bydd yn ddibynnol ar nifer o

ffactorau. Byddem yn gwerthfawrogi barn y cyhoedd ar yr awgrym hwn yn ogystal ag awgrymiadau eraill ynghylch lleoliad amgen ar gyfer yr Heddlu yn y Bala.

**Bangor**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Coch | Canolig | Gwyrdd: | Cadw |

Mae oddeutu 37 aelod o staff yn gweithio o orsaf Bangor.  Mae hyn yn cynnwys y tîm plismona lleol yn ogystal â staff eraill yr heddlu. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos o 9:30 tan 5pm.

Mae'r orsaf ym Mangor wedi'i lleoli ger canol y dref a chasgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas ac yn hanfodol bwysig yn weithredol. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid yr orsaf ym Mangor.

**Y Bermo**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Coch | Gwyrdd: | Canolig | Oren | Adolygu |

Mae gorsaf heddlu y Bermo yn ganolfan ar gyfer pedwar aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae gorsaf y Bermo yn orsaf sydd wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith.  Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas ond bod y lleoliad yn gymharol bwysig yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Bethesda**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Oren | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu Bethesda yn safle ar gyfer pedwar aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf. Nid yw'r orsaf wedi'i staffio'n llawn ac nid yw'n cael ei defnyddio i'r eithaf. Canfyddiad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas.

Cyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth roedd bwriad i adeiladu gorsaf heddlu newydd ym Methesda; fodd bynnag, o ganlyniad i'r newid sylweddol yn y rhagolygon ariannol nid yw hwn bellach yn opsiwn ymarferol na chost effeithiol.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas yn ardal Bethesda. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf ym Methesda yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt symud yr orsaf, rydym wedi edrych ar sawl opsiwn ond nid oes hyd yma unrhyw un yr ydym yn ei ffafrio. Yr opsiynau sy'n cael eu hystyried yw: defnyddio lle yn y ganolfan hamdden; neuadd y gymuned; y llyfrgell, neu fod yn rhan o brosiect cymunedol i ddatblygu rhai darnau o'r stryd fawr. Pe hoffai'r gymuned ym Methesda roi eu barn i ni ar yr awgrymiadau hyn neu wneud awgrymiadau amgen, byddem yn croesawu hynny.

**Blaenau Ffestiniog**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Gwyrdd: | I'w gadarnhau | Gwyrdd: | Cadw |

Mae 12 o staff yn gweithio o orsaf heddlu Blaenau Ffestiniog sy'n cynnwys aelodau o'r tîm plismona lleol a staff eraill yr heddlu. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae'r orsaf ym Mlaenau Ffestiniog wedi'i lleoli ger canol y dref a chasgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas ac yn hanfodol bwysig yn weithredol.

**Llanberis**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Gwyrdd: | Uchel | Oren | Adolygu |

Mae gorsaf heddlu Llanberis yn safle ar gyfer pedwar aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae gorsaf Llanberis yn orsaf sydd wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Canfyddiad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas ond ei bod yn hanfodol bwysig yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Nefyn**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Gwyrdd: | Coch | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu Nefyn yn safle ar gyfer pum aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf. Nid yw'r orsaf wedi'i staffio'n llawn ac nid yw'n cael ei defnyddio i'r eithaf. Canfyddiad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas gan ei fod yn un gweddol newydd.

Y cynnig yw cydleoli'r orsaf heddlu yn yr orsaf dân newydd ar Barc Busnes Nefyn.  Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf bresennol yn Nefyn yn aros ar agor hyd nes y bydd yr orsaf dân a'r orsaf heddlu newydd wedi'i hadeiladu a'i hagor yn 2013.

Bydd yr orsaf bresennol yn cael ei gwerthu pan fydd yr un newydd wedi'i chomisiynu.

**Penrhyndeudraeth**

| **Pwysigrwydd Gweithredol** | **Addasrwydd i'r Pwrpas** | **Ffactorau Cost** | **Potensial i gyd-leoli** | **Categori Cyffredinol** | **Argymhelliad Drafft** |
|---|---|---|---|---|---|
| Coch | Coch | Gwyrdd: | Canolig | Coch | Cau |

Nid oes unrhyw swyddogion na staff yr heddlu yn gweithio'n rheolaidd o'r orsaf ym Mhenrhyndeudraeth. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf. Nid yw'r orsaf wedi'i staffio'n llawn ac nid yw'n cael ei defnyddio i'r eithaf. Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas ac oherwydd bod yr orsaf yn weddol agos at orsaf fwy ac y byddai felly'n bosibl cynnal yr un lefel o wasanaeth i'r gymuned ag y maent yn ei gael ar hyn o bryd, argymhelliad yr adolygiad yw y dylid cau'r orsaf.

Mae'n bwysig ein bod yn glir ynghylch y ffaith mai'r unig newid arfaethedig i'r gwasanaeth yn yr ardal hon yw'r adeilad. Ni fydd unrhyw effaith ar niferoedd plismona yn yr ardal o ganlyniad i gau'r adeilad.

Fodd bynnag rydym yn awyddus i glywed barn y cyhoedd ynglŷn â lleoliadau amgen posibl ar gyfer y tîm plismona lleol, boed yn ystafell gyfarfod i gynnal cymorthfeydd neu awgrymiadau eraill. Un opsiwn yr ydym eisoes wedi edrych arno yw defnyddio Swyddfeydd Parc Cenedlaethol Eryri, a byddem yn croesawu eich barn ar hyn.

**Penygroes**

| **Pwysigrwydd Gweithredol** | **Addasrwydd i'r Pwrpas** | **Ffactorau Cost** | **Potensial i gyd-leoli** | **Categori Cyffredinol** | **Argymhelliad Drafft** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Oren | Isel | Gwyrdd: | Cadw |

Mae gorsaf heddlu Penygroes yn safle ar gyfer pum aelod o staff sy'n cynnwys aelodau o'r tîm plismona lleol.  Mae'r orsaf hefyd yn cael ei defnyddio fel canolfan hyfforddi. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae adeilad yr orsaf ym Mhenygroes yn newydd ac nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau yma.

**Pwllheli**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Gwyrdd: | Canolig | Oren | Ailddatblygu ymhen 2-5 mlynedd |

Ar hyn o bryd mae 16 aelod o staff yn gweithio o orsaf Pwllheli.  Mae hyn yn cynnwys y tîm plismona lleol yn ogystal â staff eraill yr heddlu. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae'r orsaf ym Mhwllheli wedi'i hamlygu fel un o bwysigrwydd gweithredol, fodd bynnag o ganlyniad i oed yr adeilad fe'i dynodwyd fel adeilad amhriodol yn y tymor hirach. Amlygwyd yr angen i ddatblygu'r orsaf yn y dyfodol agos ac efallai y bydd hyn yn golygu edrych am adeilad arall ym Mhwllheli - naill ai rannu adeilad gydag asiantaeth arall megis y Gwasanaeth Tân neu ddod o hyd i adeilad arall a fyddai'n darparu gorsaf heddlu addas ar gyfer yr ardal.   Er mai cynlluniau ar gyfer y tymor hirach yw'r rhain, byddem yn croesawu awgrymiadau gan sefydliadau eraill sydd hefyd yn bwriadu datblygu safleoedd ym Mhwllheli, neu sydd ag adeilad addas ar gyfer gorsaf heddlu, fel y gallwn edrych yn llawn ar y posibilrwydd o rannu lleoliad.

**Tywyn**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Gwyrdd: | Uchel | Oren | Adolygu |

Mae gorsaf heddlu Tywyn yn safle ar gyfer pedwar aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Mae Tywyn wedi'i dynodi fel gorsaf sydd angen ei hadolygu ymhellach a phan fydd y gwaith hwn yn cael ei wneud byddwn yn ystyried yr opsiwn o gydleoli â'r Gwasanaeth Tân.  Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn gymharol addas i'r pwrpas, er nad yn gwbl ddelfrydol, ond bod y lleoliad yn gymharol bwysig yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Y Gwasanaeth Plismona yng Nghonwy**

Prif Arolygydd Jane Banham sy'n gyfrifol am blismona yn y Sir. Ian Verburg yw'r Arolygydd ar gyfer Ardal Blismona Leol Conwy Arfordirol. Y mae hefyd ddwy ardal blismona sy'n ymestyn dros ran o Gonwy a rhan o Sir Ddinbych. Gary Kelly yw Arolygydd Ardal Blismona Conwy a Dinbych Wledig a Dyfan Jones yw Arolygydd ardal Abergele a Dinbych Arfordirol. I gael rhagor o wybodaeth am gyfraddau trosedd ewch i www.police.uk neu i'r Crynodeb o Blismona yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi crynodeb misol o berfformiad yn gyffredinol ac ar lefel sirol.

Yng Nghonwy ar hyn o bryd mae chwe gorsaf heddlu: Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno, Llanrwst a Thowyn (ar gau). Yn ychwanegol, mae Pencadlys yr Heddlu wedi'i leoli ym Mae Colwyn.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb Bae Colwyn**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Coch | Uchel | Coch | Symud |

Mae'r orsaf heddlu ym Mae Colwyn ar hyn o bryd yn ganolfan ar gyfer oddeutu 100 aelod o staff gan gynnwys y tîm ymateb, rhai staff plismona lleol a staff eraill yr heddlu. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos rhwng 9am a 7pm.

Mae'r orsaf wedi lleoli ger canol y dref; fodd bynnag nid yw'r adeilad bellach yn addas i'r pwrpas. Argymhellir cau gorsaf Bae Colwyn a symud y timau plismona i adeiladau Pencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn. Mae manylion lleoliad y gwasanaeth desg flaen yn cael eu trafod ar hyn o bryd ond bydd y gwasanaeth yn parhau yn y lleoliad newydd.

**Abergele**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Coch | Isel | Gwyrdd: | Cadw |

Mae 9 aelod o staff yn gweithio o orsaf heddlu Abergele. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r tîm plismona lleol. Mae cyfleuster hyfforddi yn yr orsaf hefyd. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae'r orsaf yn Abergele wedi'i lleoli ger canol y dref a chasgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn eithaf addas i'r pwrpas ac yn hanfodol bwysig yn weithredol. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid yr orsaf yn Abergele ar hyn o bryd, er bod angen gwneud rhai gwelliannau iddi.

**Conwy**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Gwyrdd: | Coch | Canolig | Oren | Adolygu |

Mae gorsaf heddlu Conwy yn safle ar gyfer saith aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Mae gorsaf Conwy yn orsaf sydd wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas ond nad yw'n hanfodol bwysig yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Llandudno**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Coch | Uchel | Coch | Symud |

Mae oddeutu 40 aelod o staff yn gweithio o orsaf Llandudno, Mae hyn yn cynnwys y tîm plismona lleol yn ogystal â staff hyfforddi. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos rhwng 9am a 7pm. Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern. Er bod yr orsaf mewn lleoliad canolog yn Llandudno mae problemau eraill cysylltiedig â'r lleoliad, megis lle i barcio cerbydau'r heddlu.

Cydnabyddir fod Llandudno'n lleoliad gweithredol pwysig ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gorsaf heddlu addas yn Llandudno. Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad llai a mwy addas yn Llandudno. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf yn Llandudno yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt symud yr orsaf, rydym wedi edrych ar sawl opsiwn ond nid oes hyd yma unrhyw opsiwn yr ydym yn ei ffafrio. O ganlyniad i faint y gofynion plismona ar gyfer yr ardal, bydd angen gwneud gwaith mwy manwl i ddod o hyn i leoliad addas ac yna cynnal gwerthusiad llaw. Hoffem ofyn i'r gymuned, sefydliadau a busnesau yn Llandudno gynnig lleoliadau posibl ar gyfer yr orsaf yn Llandudno a byddem yn croesawu eich barn ar yr opsiynau sydd ar gael. Bydd y gwasanaeth desg flaen yn parhau yn y lleoliad newydd.

**Llanrwst**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Oren | Oren | Uchel | Oren | Adolygu |

Mae gorsaf heddlu Llanrwst yn safle ar gyfer oddeutu 12 o aelodau’r tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Mae gorsaf Llanrwst yn orsaf sydd wedi’i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn gymharol addas i’r pwrpas ac yn eithaf hanfodol yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl. Efallai y bydd cyfle yn y dyfodol i gydleoli gyda’r awdurdod lleol yn yr ardal a byddem yn croesawu adborth ar y posibilrwydd hwn.

**Towyn**

| **Pwysigrwydd Gweithredol** | **Addasrwydd i’r Pwrpas** | **Ffactorau Cost** | **Potensial i gyd-leoli** | **Categori Cyffredinol** | **Argymhelliad Drafft** |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Coch | Coch | Uchel | Coch | Cau |

Mae'r orsaf hon wedi bod ar gau ers bron i dair blynedd. Mae’r adeilad eisoes ar y farchnad ac mae’r Adolygiad drafft o’r Ystâd yn cadarnhau’r penderfyniad blaenorol y dylid cau’r orsaf.

**Y Gwasanaeth Plismona yn Sir Ddinbych**

Prif Arolygydd Ian Jones sy'n gyfrifol am blismona yn y Sir. Y mae hefyd ddwy ardal blismona sy'n ymestyn dros ran o Gonwy a rhan o Sir Ddinbych. Gary Kelly yw Arolygydd Ardal Blismona Conwy a Dinbych Wledig a Dyfan Jones yw Arolygydd ardal Abergele a Dinbych Arfordirol.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfraddau trosedd ewch i www.police.uk neu i'r Crynodeb o Blismona yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi crynodeb misol o berfformiad yn gyffredinol ac ar lefel sirol.

Yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd mae 15 gorsaf heddlu: Rhuthun, Dinbych, y Rhyl, Rhuddlan, Llangollen, Llanelwy a Chorwen. Yn ychwanegol, mae llawer o swyddogaethau corfforaethol megis y Ganolfan Gyfathrebiadau wedi'u lleoli yn Llanelwy ac yn adeilad yr Adran Gweinyddu Cyfiawnder ym Mhrestatyn.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb Corwen**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Gwyrdd: | | Gwyrdd: | Cadw |

Mae'r orsaf heddlu yng Nghorwen yn ganolfan ar gyfer oddeutu 30 aelod o staff gan gynnwys y tîm ymateb.

Mae'r orsaf ger canol y dref ac yn cael ei rhannu gan yr Heddlu a'r gwasanaethau Tân ac Ambiwlans. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau yng Nghorwen Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

**Pencadlys Plismona Lleol/Canolfan Ymateb Llanelwy (Adeilad PFI)**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Oren | Isel | Gwyrdd: | Cadw |

Mae adeiladau'r heddlu yn Llanelwy ar hyn o bryd yn ganolfan ar gyfer oddeutu 300 aelod o staff gan gynnwys y tîm ymateb, gwasanaethau plismona lleol, CID a staff eraill yr heddlu. Mae dalfa yn y lleoliad. Nid oes gwasanaeth desg flaen cynhwysfawr yn cael ei gynnig er bod gwasanaeth derbynfa ar gyfer y ganolfan.

Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn addas i'r pwrpas ac yn hanfodol bwysig yn weithredol. Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer newidiadau yn Llanelwy ar hyn o bryd.

**Gorsaf Heddlu Dinbych**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Coch | Canolig | Gwyrdd: | Cadw |

Mae gorsaf heddlu Dinbych yn safle ar gyfer oddeutu 20 o staff sy'n cynnwys aelodau o'r tîm plismona cymdogaeth. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae'r orsaf wedi'i lleoli ger canol y dref. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau yn Ninbych.

**Gorsaf Heddlu Llangollen**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Coch | Coch | Uchel | Coch | Symud |

Mae'r orsaf yn Llangollen ar hyn o bryd yn adeilad a rennir gyda'r Cyngor. Mae pedwar aelod o staff o'r tîm plismona lleol wedi'u lleoli yn yr orsaf. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas yn Llangollen. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf yn Llandudno yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt symud y gwasanaeth plismona yn Llangollen, mae symud i Neuadd y Dref yn un opsiwn. Pe hoffai'r gymuned yn Llangollen roi eu barn i ni ar yr awgrymiadau hyn neu wneud awgrymiadau amgen, byddem yn croesawu hynny.

**Gorsaf Heddlu Rhuddlan**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Oren | Canolig | Oren | Adolygu |

Mae pum aelod o'r tîm plismona lleol ar gyfer yr ardal wedi'u lleoli yng ngorsaf Rhuddlan. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Mae gorsaf Rhuddlan wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn gymharol addas i'r pwrpas ac yn hanfodol yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Gorsaf Heddlu y Rhyl**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Gwyrdd: | Canolig | Gwyrdd: | Cadw |

Mae 56 aelod o'r tîm plismona lleol yn gweithio o'r orsaf hon. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos rhwng 9am a 7pm.

Mae'r orsaf wedi'i lleoli ger canol y dref. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau yn y Rhyl.

**Gorsaf Heddlu Rhuthun**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Oren | Coch | Uchel | Oren | Adolygu |

Mae wyth aelod o'r tîm plismona lleol yn gweithio o orsaf Rhuthun. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Mae gorsaf Rhuthun wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Casgliad yr adolygiad yw bod yr adeilad yn gymharol addas i'r pwrpas ac yn eithaf hanfodol yn weithredol. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl. Efallai y bydd cyfle yn y dyfodol i leoli'r orsaf yn Neuadd y Dref a byddem yn croesawu adborth ar y posibilrwydd hwn.

**Y Gwasanaeth Plismona yn Sir y Fflint**

Prif Arolygydd Darren Wareing, y Prif Arolygydd Sirol, a dau Arolygydd Ardal, Paul McKewon yn y Gogledd, ac Iwan Jones yn y De, sy'n gyfrifol am blismona yn y sir. I gael rhagor o wybodaeth am gyfraddau trosedd ewch i www.police.uk neu i'r Crynodeb o Blismona yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi crynodeb misol o berfformiad yn gyffredinol ac ar lefel sirol.

Yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd mae 7 gorsaf heddlu: Saltney, Glannau Dyfrdwy, y Fflint, Bwcle, Treffynnon, Mostyn a'r Wyddgrug.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb yr Wyddgrug**

| **Pwysigrwydd Gweithredol** | **Addasrwydd i'r Pwrpas** | **Ffactorau Cost** | **Potensial i gyd-leoli** | **Categori Cyffredinol** | **Argymhelliad Drafft** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Coch | Canolig | Oren | Adolygu |

Mae oddeutu 130 aelod o staff yn gweithio o orsaf yr Wyddgrug. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r timau ymateb a'r tîm plismona lleol yn ogystal â staff CID a staff eraill yr heddlu. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos rhwng 9am a 7pm.

Mae'r orsaf yn yr Wyddgrug wedi'i lleoli ger canol y dref; fodd bynnag nid yw'r adeilad yn ddelfrydol o ganlyniad i'w oed ac adeiladwaith mewnol 'cellog'. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i newid y trefniadau yn yr Wyddgrug, fodd bynnag mae'r adolygiad yn cydnabod efallai y bydd angen ystyried adeilad amgen ar gyfer y gwasanaeth plismona yn yr Wyddgrug yn yr hirdymor. Er mai cynlluniau ar gyfer y tymor hirach yw'r rhain, byddem yn croesawu awgrymiadau gan sefydliadau eraill sydd hefyd yn bwriadu datblygu safleoedd yn yr Wyddgrug fel y gallwn edrych yn llawn ar y posibilrwydd o rannu lleoliad.

**Gorsaf Heddlu Bwcle**

| **Pwysigrwydd Gweithredol** | **Addasrwydd i'r Pwrpas** | **Ffactorau Cost** | **Potensial i gyd-leoli** | **Categori Cyffredinol** | **Argymhelliad Drafft** |
|---|---|---|---|---|---|
| Coch | Coch | Oren | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu Bwcle ar hyn o bryd yn safle ar gyfer oddeutu 19 o staff sy'n cynnwys y tîm plismona lleol. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor bump diwrnod yr wythnos rhwng 5pm a 9am.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf ym Mwcle yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer. Bydd y gwasanaeth desg flaen yn parhau yn y lleoliad newydd.

O safbwynt adleoli'r gwasanaeth plismona ym Mwcle, byddwn yn edrych ar nifer o opsiynau. Hyd yma yr opsiwn yr ydym yn ei ffafrio yw lleoli gwasanaeth yr heddlu yng nghanolfan 'Flintshire Connects' yn y dref. Hoffem farn y gymuned ar yr opsiynau posibl

**Gorsaf Heddlu Glannau Dyfrdwy**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Coch | Canolig | Oren | Adolygu |

Ar hyn o bryd mae 30 aelod o staff yn gweithio o orsaf Glannau Dyfrdwy. Mae hyn yn cynnwys y tîm plismona lleol yn ogystal â staff eraill yr heddlu. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn gwbl addas i'r pwrpas ac nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio hyd yr eithaf o ganlyniad i'w faint. Credir fod y lleoliad yn bwysig yn weithredol, fodd bynnag o ganlyniad i oed yr adeilad mae'r costau cynnal a chadw yn gymharol uchel.

Mae gorsaf Glannau Dyfrdwy wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl. Efallai y bydd cyfle yn y dyfodol i leoli'r orsaf gyda'r prosiectau adfywio sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor a byddem yn croesawu adborth ar y posibilrwydd hwn.

**Gorsaf Heddlu y Fflint**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Oren | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu'r Fflint ar hyn o bryd yn safle ar gyfer oddeutu 30 o staff gan gynnwys y tîm plismona lleol. Mae gwasanaeth desg flaen yr orsaf ar agor 4 diwrnod yr wythnos (Llun, Mawrth, Mercher a Gwener) rhwng 9am a 5pm.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern. Mae adeilad y llys sydd yn sownd wrth yr orsaf hefyd yn wag.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf yn Fflint yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt adleoli'r gwasanaeth plismona yn y Fflint, byddwn yn edrych ar nifer o opsiynau, gan gynnwys symud i un o adeiladau'r Cyngor yn yr ardal. Rydym yn bwriadu gweithio'n agos â'r Cyngor i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a allent godi ar gyfer y gymuned drwy'r rhaglen adfywio ar gyfer yr ardal. Hoffem farn y gymuned ar yr opsiynau posibl .

**Gorsaf Heddlu Treffynnon**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Oren | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu Treffynnon yn safle ar gyfer oddeutu 15 o staff y tîm plismona lleol. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor ar ddydd Iau o 9am tan 5pm.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern.

O safbwynt adleoli'r gwasanaeth plismona yn Nhreffynnon, y cynnig yw cynnwys yr orsaf heddlu fel rhan o ganolfan 'Flintshire Connects' yn hen adeilad neuadd y dref yng nghanol y dref. Hoffem glywed barn y gymuned ar y cynnig hwn.

Bydd yr orsaf bresennol yn parhau ar agor hyd nes y bydd y cyfleuster newydd wedi'i sefydlu.

**Gorsaf Heddlu Mostyn**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Oren | Coch | Isel | Oren | Adolygu |

Mae gorsaf heddlu Mostyn yn safle ar gyfer tri aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn gwbl addas i'r pwrpas ac nad yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud ohono. Credir fod y lleoliad yn bwysig yn weithredol, fodd bynnag o ganlyniad i oed yr adeilad mae'r costau cynnal a chadw yn gymharol uchel. Mae gorsaf Mostyn wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Gorsaf Heddlu Saltney**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Coch | Oren | Canolig | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu Saltney yn safle ar gyfer 6 o'r tîm plismona lleol Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas. Mae’n bwysig nodi y bydd yr orsaf yn Saltney yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt adleoli’r gwasanaeth plismona yn Saltney, byddwn yn edrych ar nifer o opsiynau. Hoffem farn y gymuned ar yr opsiynau posibl.

**Y Gwasanaeth Plismona yn Wrecsam**

Prif Arolygydd Alex Goss, y Prif Arolygydd Sirol, a dau Arolygydd Ardal, Nick Evans dros Dref Wrecsam a Paul Jones dros Wrecsam Wledig, sy'n gyfrifol am blismona yn sir Wrecsam. I gael rhagor o wybodaeth am gyfraddau trosedd ewch i www.police.uk neu i'r Crynodeb o Blismona yng Ngogledd Cymru sy'n rhoi crynodeb misol o berfformiad yn gyffredinol ac ar lefel sirol.

Yn Wrecsam ar hyn o bryd mae 7 gorsaf heddlu: Coedpoeth, Gresffordd, Owrtyn, Rhosllanerchrugog, Cefn Mawr, Y Waun a Wrecsam.

**Gorsaf Heddlu/Canolfan Ymateb Wrecsam**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Coch | Coch | Uchel | Coch | Ailddatblygu |

Mae'r orsaf heddlu yn Wrecsam yn ganolfan ar gyfer oddeutu 280 aelod o staff gan gynnwys y tîm ymateb, rhai staff plismona lleol, CID yn ogystal â staff eraill yr heddlu. Mae'r orsaf yn cynnig gwasanaeth desg flaen sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos o 8am tan 9:30pm. Mae bloc dalfa fawr yn yr orsaf hefyd.

Mae angen buddsoddiad o oddeutu £5.5 miliwn yn Wrecsam ar fyrder ac mae'r Adolygiad drafft o'r Ystâd yn cadarnhau hyn.

Mae'r adeilad wedi cyrraedd diwedd ei oes economaidd ac mae rhai rhannau o'r adeilad, yn arbennig y twr, nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn am nad ydynt yn addas. Mae'r manylion llawn ynghylch y gofynion ar gyfer ailddatblygu yn Wrecsam i'w gweld yn yr Adolygiad drafft o'r Ystâd a byddwn yn chwilio a safle priodol ar gyfer canolfan ymateb a dalfa yn ardal Wrecsam. Byddem yn croesawu cynigion gan y gymuned leol ynghylch lleoliad ar gyfer yr adeilad newydd. Yr opsiwn yr ydym yn ei ffafrio yw gorsaf heddlu newydd mewn lleoliad yng Nghanol tref Wrecsam a gorsaf y tu allan i'r dref ar gyfer y gwasanaeth ymateb a dalfa.

**Gorsaf Heddlu Cefn Mawr**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Coch | Oren | Oren | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu Cefn Mawr yn safle ar gyfer saith aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf yng Nghefn Mawr yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt adleoli'r gwasanaeth plismona yng Nghefn Mawr, byddwn yn edrych ar nifer o opsiynau. Hoffem farn y gymuned ar yr opsiynau posibl

**Gorsaf Heddlu y Waun**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Coch | Oren | Oren | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu y Waun yn safle ar gyfer tri aelod o staff y tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf yn y Waun yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt adleoli'r gwasanaeth plismona yn y Waun, byddwn yn edrych ar nifer o opsiynau. Hoffem farn y gymuned ar yr opsiynau posibl

**Gorsaf Heddlu Coedpoeth**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Oren | Coch | Canolig | Oren | Adolygu |

Mae'r orsaf heddlu yng Nghoedpoeth yn ganolfan ar gyfer oddeutu un ar ddeg aelod o staff tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn gwbl addas i'r pwrpas ac nad yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud ohono. Credir fod y lleoliad yn bwysig yn weithredol, fodd bynnag o ganlyniad i oed yr adeilad mae'r costau cynnal a chadw yn gymharol uchel. Mae gorsaf Coedpoeth wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Gorsaf Heddlu Gresffordd**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Coch | Oren | Coch | Uchel | Coch | Symud |

Mae gorsaf heddlu Gresffordd yn ganolfan ar gyfer oddeutu 13 aelod o'r tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Nid yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud o'r lle yn yr adeilad ac mae ei oed yn golygu nad oes modd ei addasu i ddiwallu gofynion darparu gwasanaeth plismona modern.

Ein bwriad felly yw ceisio symud yr orsaf i adeilad mwy addas. Mae'n bwysig nodi y bydd yr orsaf yng Ngresffordd yn aros ar agor hyn nes y ceir lleoliad amgen addas ar ei chyfer.

O safbwynt adleoli'r gwasanaeth plismona yng Ngresffordd, byddwn yn edrych ar nifer o opsiynau. Hoffem farn y gymuned ar yr opsiynau posibl

**Gorsaf Heddlu Owrtyn**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Oren | Oren | Coch | Isel | Oren | Adolygu |

Mae gorsaf heddlu Owrtyn yn safle ar gyfer 6 aelod o'r tîm plismona lleol. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.


Casgliad yr adolygiad yw nad yw'r adeilad yn gwbl addas i'r pwrpas ac nad yw'r defnydd eithaf yn cael ei wneud ohono. Credir fod y lleoliad yn gymharol bwysig yn weithredol, fodd bynnag mae'r costau cynnal a chadw yn gymharol uchel. Mae gorsaf Owrtyn wedi'i dynodi ar gyfer adolygiad pellach er nad oes unrhyw gynlluniau penodol nac amserlen ar gyfer cychwyn y gwaith. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan y gymuned ar gyfer lleoliadau amgen posibl.

**Gorsaf Heddlu Rhosllanerchrugog**

| Pwysigrwydd Gweithredol | Addasrwydd i'r Pwrpas | Ffactorau Cost | Potensial i gyd-leoli | Categori Cyffredinol | Argymhelliad Drafft |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd: | Gwyrdd: | Oren | Canolig | Gwyrdd: | Cadw |

Mae oddeutu 31 aelod o'r tîm plismona lleol wedi'u lleoli yng ngorsaf heddlu Rhosllanerchrugog. Nid oes gwasanaeth desg flaen yn yr orsaf hon.

Mae'r orsaf wedi'i lleoli yng nghanol y dref. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau yn Rhosllanerchrugog.


Amlwch
Holyhead
Benllech
Valley
Llangefni
Gaerwen
Bangor
Menai Bridge
Bethesda
Caernarfon
Llanberis
Penygroes
Llandudno
Colwyn Bay
Conwy
HQ Colwyn Bay
Abergele
Towyn
Rhyl
Prestatyn
Rhuddlan
St. Asaph
Mostyn
Holywell
Flint
Deeside
Denbigh
Mold
Buckley
Saltney
Llanrwst
Ruthin
Gresford
Coedpoeth
Wrexham
Rhosllanerchrugog
Blaenau Ffestiniog
Corwen
Llangollen
Cefn Mawr
Overton- on-Dee
Chirk
Nefyn
Porthmadog
Penrhyndeudraeth
Pwllheli
Bala
Abersoch
Dolgellau
Barmouth
Tywyn
Liverpool
HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2011. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100022678.
© Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey Licence Number 100022678.
© OpenStreetMap and contributors, Creative Commons-Share Alike License (CC-BY-SA).